

Cwestiynau Cyffredin

➤ Beth yw bwriad y cwrs?

Mae llyfrau yn llesol, yn enwedig i blant a phobl ifanc wrth iddynt geisio deall a dysgu am y byd o'u cwmpas. Gall llyfrau da fod yn gwbl hudolus gan gludo'r darlennydd i fydoedd gwahanol drwy rym geiriau a dychymyg yn unig. Daw cymeriadau ffuglennol yn ffrindiau da i'r darllenwyr am sbel, gan gynnig cysur, ysbrydoliaeth ac arweiniad mewn bywyd. Yn ôl adroddiad diweddar gan y [National Literacy Trust](#), nododd 3 o bob 5 plentyn fod darllen yn gwneud iddynt deimlo yn hapusach, gyda hanner y plant yn nodi fod darllen yn eu galluogi i freuddwydio am y dyfodol. Ond beth all ddigwydd os nad yw plentyn yn adnabod eu hunain a'u teuluoedd yn y llyfrau sydd ar gael?

Bydd y cwrs hwn yn gam ymarferol er mwyn sicrhau fod llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc yn berthnasol i pob plentyn yng Nghymru. Drwy gynnig hyfforddiant i awduron â phrofiadau byw perthnasol, y gobaith yw cyhoeddi mwy o lyfrau fydd yn cynnwys straeon ysbrydoledig am gymeriadau o amryw o gefndiroedd ethnig, cymeriadau sydd yn byw ag anableddau, a phortreadau o deuluoedd sydd yn cynnwys aelodau LHDTG+. Bydd llyfrau amrywiol hefyd yn sicrhau fod plant Cymru gyfan yn cael eu cyflwyno i'r amrywiaeth bendigedig o gymunedau a chefnidiroedd teuluoedd sydd yn bodoli, gan anelu i greu cenedlaethau mwy caredig ac eangfrydig i'r dyfodol.

Bydd y cwrs yma yn dwyn ynghyd unigolion o liw (o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall); unigolion sydd yn byw ag anableddau neu salwch (meddyliol neu gorfforol); unigolion sy'n uniaethu fel LHDTG+; neu unigolion fydd yn gallu esbonio yn eu geiriau eu hunain sut all eu profiadau bywyd unigryw gyfrannu tuag at ein hamcan o greu diwylliant llenyddol mwy cynhwysol ac amrywiol er budd ein darllenwyr ifanc. Nid oes angen profiad blaenorol o ysgrifennu cyn ymgeisio am le ar y cwrs hwn, na Chymraeg perffaith! – dim ond yr awydd i greu straeon ardderchog a'r potensial i greu gwaith o safon fydd yn cyfareddu plant a phobl ifanc.

➤ Beth fydd yn digwydd ar y cwrs?

Can gychwyn ar y prynhawn dydd Llun, bydd y criw o awduron a'r tiwtor yn cychwyn y cwrs drwy drafod eu hoff lyfrau amrywiol i blant hŷn a phobl ifanc. Can archwilio'r elfennau gorau o'r llyfrau dan sylw, byddwn yn gosod seiliau ar gyfer datblygu gwaith gwych ein hunain yn ystod yr wythnos.

Drwy weithdai grŵp, sgysiau un-i-un, darlenniadau a sgysiau gan awduron gwadd ac unigolion o'r diwydiannau creadigol, bydd y cwrs yn rhoi arweiniad ar sut i adeiladu ar eich crefft ysgrifennu creadigol er mwyn creu straeon i blant hŷn (8-12) a phobl ifanc (12+).

Ar ôl y cwrs, bydd Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yn annog y rhwydwaith newydd o awduron i gadw mewn cysylltiad drwy gyfarfodydd digidol i drafod syniadau, heriau ac i rannu gwaith ar y gweill. Bydd cyfleoedd pellach i ddatblygu yn cael eu rhannu yn gyson er mwyn sicrhau fod yr awduron yn parhau i ysgrifennu yn yr hir dymor, a hyd yn oed mynd ymlaen i gyhoeddi eu gwaith.

➤ **Pwy sydd yn gymwys i ymgeisio am y cwrs hwn?**

Mae'r cwrs hwn ar gyfer unigolion 18 oed neu hŷn, ac ar gyfer unigolion sydd yn ystyried eu hunain fel rhywun sydd yn cael eu tangynrychioli yn y byd llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru. Byddwn yn eich gwahodd i esbonio pam eich bod yn gymwys i ymgeisio am y cyfle hwn yn eich geiriau eich hun. Rydym â diddordeb penodol mewn denu unigolion o liw neu o gefndiroedd ethnig amrywiol; unigolion sydd yn byw ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol); unigolion o gefndiroedd incwm isel, unigolion LHDTG+ neu unigolion sydd yn ail-afael yn eu Cymraeg ac yn awyddus i fagu hyder drwy ymarfer yr iaith.

Mae croeso i chi [gysylltu â ni](#) cyn ymgeisio i dderbyn arweiniad.

➤ **Oes angen profiad arnaf i ymgeisio? Neu ydw i yn *rhy* brofiadol?**

Rydym yn bennaf chwilio am ymgeiswyr sydd â **photensial** o fewn y byd cyhoeddi i blant hŷn a phobl ifanc. Nid oes raid i chi fod â phrofiad blaenorol o ysgrifennu, dim ond syniadau da ac angerdd tuag at eich gwaith ysgrifennu.

Os ydych chi yn awdur lled-brofiadol eisoes, efallai eich bod yn wynebu rhwystrau sydd yn eich atal rhag datblygu yn bellach. Neu efallai eich bod yn barod i arbrofi â dull, genre neu iaith newydd o fewn eich ysgrifennu. Bydd gan bawb ddiffiniad gwahanol o'r gair 'profiad' yng nghyd-destun eich gwaith ysgrifennu. Felly os nad ydych chi yn siŵr p'un ai yw'r cwrs hwn yn addas i chi ar y cam hwn o'ch gyrfa fel awdur, [cysylltwch â ni am sgwrs](#).

➤ **Oes cost am y cwrs hwn?**

Nag oes. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau Tŷ Newydd â chost i'w mynychu, ond mae ambell gwrs neu weithgaredd strategol ar gael yn rhad ac am ddim i awduron drwy broses ymgeisio gystadleuol.

Bydd yn rhaid ystyried eich costau teithio i, ag o'r ganolfan. Os yw hyn yn peri problem, [cysylltwch â ni am sgwrs](#).

➤ **Allwch chi roi mwy o wybodaeth ymarferol am Tŷ Newydd ac am y cwrs?**

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, sy'n cael ei rhedeg gan Llenyddiaeth Cymru, yma [ar ein gwefan](#). Gallwch weld lluniau a darllen blogiau wedi eu hysgrifennu gan awduron sydd wedi ymweld yn y gorffennol. Mae Tŷ Newydd wedi ei leoli yng Ngwynedd rhwng y môr a'r mynyddoedd – daflod carreg o Barc Cenedlaethol Eryri ac o Benrhyn Llŷn – sydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ar gyfer y cwrs hwn, bydd croeso i'r awduron gyrraedd rhwng 2.00 pm – 5.00 pm ar ddydd Llun 25 Ebrill 2022, a bydd y cwrs yn dod i ben ar ôl cinio, tua 2.00 pm, ar ddydd Gwener 29 Ebrill. Mae cyfarwyddiadau teithio i'w weld [ar ein gwefan](#), a gallwn eich helpu i gyrraedd Tŷ Newydd o orsafoedd trên Cricieth a Bangor.

Bydd yr awduron yn derbyn ystafell wely yr un ar gyfer yr wythnos. Mae ambell ystafell yn ensuite, ac eraill yn rhannu ystafelloedd ymolchi. Bydd yr ystafelloedd gwely yn cael eu cynnig ar hap.

Bydd eich holl brydau bwyd yn cael eu darparu i chi gan ein cogydd preswyl, gan gynnwys brecwast hunan-wasanaeth, cinio steil bwffe, pryd nos poeth gyda phwdin, a digon o fyrbrydau yn cynnwys cacenni a bisgedi cartref. Gallwn baratoi prydau bwyd i bob math o anghenion diet neu alergeddau bwyd gwahanol.

Rydym yn gobeithio y bydd digon o amser rhydd i chi yn ystod y cwrs i fwynhau'r ardal, ac i ymlacio yn y ganolfan. Ond byddwn yn gofyn yn garedig i chi i fynychu'r holl ddigwyddiadau fydd yn cael eu trefnu fel rhan o gynnwys y cwrs, a bydd amserlen fanwl yn cael ei darparu.

- **Mae gen i anabledd neu salwch all ei gwneud yn anodd i mi gymryd rhan yn y cwrs, allwch chi helpu?**

Gallwn. Mae tîm Llenyddiaeth Cymru bob amser ar gael i drafod unrhyw bryderon neu geisiadau o flaen, ac yn ystod y cwrs. I unigolion mewn cadair olwyn neu ag anghenion symudedd, mae gennym ni ystafell wely hygyrch a gallwn groesawu cynorthwydd personol. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion o'r fath.

- **Pryd fydda i yn cael gwybod os yw fy nghais wedi bod yn llwyddiannus?**

Byddwn yn rhoi gwybod canlyniad y broses ddethol o fewn pythefnos i'r dyddiad cau o [11 Chwefror 2022](#).

- **Os y bydda i yn aflwyddiannus, a fydda i yn derbyn adborth?**

Gan ein bod yn disgwyl nifer uchel o geisiadau, efallai na fydd modd i ni ddarparu adborth personol i bob cais. Fodd bynnag lle gallwn, byddwn yn ymgeisio i roi llinell o adborth neu gyngor unigol ar gyfleoedd eraill tebyg neu addas i chi gan Llenyddiaeth Cymru neu bartneriaid eraill.

Rydym yn ymwybodol y gall derbyn newyddion eich bod wedi bod yn aflwyddiannus gael effaith negyddol ar eich llesiant. Rydym yn rhoi ein gair y byddwn yn dangos parch ac yn rhoi sylw i bob cais unigol, gan ystyried bob ymgeisydd yn ofalus.

Bydd gan dîm bychan o staff Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru fynediad at eich gwaith creadigol. Yn unol â'n strategaeth dod o hyd i dalent a chyfeirio talent, mae posib y byddwn yn cysylltu â chi yn y dyfodol wrth i gyfleoedd eraill addas godi, yn seiliedig ar eich gwaith a'ch diddordebau. I alluogi Llenyddiaeth Cymru i gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data (GDPR), gofynnwn i chi lenwi'r adran berthnasol ar ddiwedd y ffurflen gais i roi gwybod os nad ydych chi eisiau clywed gan Llenyddiaeth Cymru am gyfleoedd yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cwrs neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru am sgwrs anffurfiol ar y ffôn, dros ebost neu drwy Facebook Messenger.